TAG UG/Uwch

1383/01

# CYMRAEG AIL IAITH
# *(WELSH SECOND LANGUAGE)*
# CA3

## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

P.M. DYDD IAU, 17 Mai 2012

*P.M. THURSDAY, 17 May 2012*

2 awr

*2 hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 8 tudalen.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*8 page answer book.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Use black ink or black ballpoint pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*You should spend **1 HOUR** on each section.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) wrth ei bodd

(ii) ar ei golled

(iii) o'r golwg

(iv) pwyso a mesur

(v) o ddrwg i waeth

(vi) ar bigau'r drain

(vii) crynu yn ei sgidiau

(viii) ail law

(ix) mor

(x) môr

**2.** Ail-ysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi'u tanlinellu: [20]

*(a)* Bydd ni'n hoffi mynd ar ein gwyliau.

*(b)* Rydw i'n credu bod nhw wedi gadael yr ysgol.

*(c)* Pan clywais i'r newyddion roeddwn i'n drist.

*(ch)* Gofynnwch i fe am brynu'r tocynnau i'r gyngerdd.

*(d)* Doedd nhw ddim yn deall y cwestiwn.

*(dd)* Pedair blwyddyn yn ôl symudodd y bobl drws nesa.

*(e)* Derbyniodd y plentyn dair anrhegion mawr gan ei fodryb.

*(f)* Dyma'r myfyrwyr pwy sy'n newydd i'r coleg.

*(ff)* Dylwn hi adolygu mwy ar gyfer yr arholiad.

*(g)* Siaradodd e am nhw yn yr ysgol ddoe.

**3.** Gan ysgrifennu'n bersonol, **disgrifiwch unrhyw daith arbennig** rydych chi wedi'i wneud. *Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.* [20]

Gallwch sôn am:
- ble roedd y daith
- pryd aethoch chi ar y daith
- gyda phwy aethoch chi
- yr hyn oedd yn arbennig am y daith.

Cofiwch ddisgrifio'r daith yn ofalus. Rhoddir marciau am ysgrifennu'n gywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**4.** Darllenwch yn ofalus y penillion canlynol o'r gerdd *Cilmeri* gan Gerallt Lloyd Owen ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Y nant a welaf fan hyn
A welodd Llywelyn.
Camodd ar y cerrig hyn.

Fin nos, fan hyn
O'r golwg nesai'r gelyn.
Fe wnaed y cyfan fan hyn.

'Rwyf fi'n awr fan hyn
Lle bu'i wallt ar welltyn,
A dafnau o'i waed fan hyn.

*(a)* Gosodwch y penillion **uchod** yn eu cyd-destun. [20]

Disgrifiwch:
- yr hyn mae'r bardd yn ei ddweud **cyn** y penillion hyn
- yr hyn mae'r bardd yn ei ddweud **ar ôl** y penillion hyn
- yr hyn mae'r bardd yn ei ddweud **yn** y penillion hyn

*(b)* Nodwch arddull y penillion **uchod**. Rhowch eich barn am effaith y technegau hyn. [20]

Dylech nodi:
- mesur y gerdd
- hyd y llinellau
- yr odl
- gwahanol dechnegau megis
  - delweddau
  - cyflythreniad
  - iaith

*(c)* Rhowch eich ymateb personol i'r gerdd hon a'i phwnc. **Peidiwch ag ailadrodd y cynnwys na thrafod yr arddull**. [20]